**Hysbysiad o Gynnig**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD - CEI CONNAH)**

**(DIWYGIAD RHIF 2) GORCHYMYN 202X**

Rhoddir rhybudd trwy hyn, fod Cyngor Sir y Fflint (“y Cyngor”) wrth ddefnyddio’i bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y’i diwygiwyd (“Deddf 1984”), Deddf Rheoli Traffig 2004 (“Deddf 2004”) a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud Gorchymyn, a fydd yn diwygio:-

Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diddymu) 2018 a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) 2022

Fel bod

Atodlen 2A a gynhwysir o fewn Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) 2022 yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu lleihad ym maint yr ardal barcio Stryd Fawr a bydd darpariaeth arhosiad byr a hir yn cael ei gyflwyno ar y maes parcio dan sylw.

Ym mhob agwedd arall mae darpariaethau presennol y Gorchmynion uchod yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig, cynlluniau, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol swyddfa Sir y Fflint yn Cysylltu, Wepre Drive, Cei Connah CH5 4HA. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymyn Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i’r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â’r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn dydd Gwener, 7 Mawrth 2025 neu drwy anfon e-bost at Transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk gan ddyfynnu cyfeirnod PS/OFS-AMENDMENT 2/ORDER/CQ/JB.

Dyddiad: Dydd Gwener 14 Chwefror 2025



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NR

**DYDDIEDIG XX XX 202X**

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD - CEI CONNAH) (DIWYGIAD RHIF 2) GORCHYMYN 202X

**Katie Wilby,**
**Prif Swyddog**
**(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**
**Neuadd y Sir,**
**Yr Wyddgrug,**
**Sir y Fflint,**
**CH7 6NF**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD - CEI CONNAH)**
**(DIWYGIAD RHIF 2) GORCHYMYN 202X**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) wrth ddefnyddio’i bwerau dan Adrannau 32, 33, 34, 35, 124 (1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y’i diwygiwyd (“Deddf 1984”), Deddf Rheoli Traffig 2004 (“Deddf 2004”) a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a Chychwyn**

1. Mae’r Gorchymyn y atodol i Orchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diwygiad) 2018 (“y Gorchymyn Gwreiddiol”) a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah (Diwygiad Rhif 1) 2022 sydd yn parhau mewn grym ac effaith yn llawn, yn amodol ar yr hyn a nodir yma.

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli’r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar XX XXXX 20XX a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio oddi ar y Stryd – Cei Connah) (Diwygiad) (Rhif 2) 202X.

4. Mae diffiniadau wedi’u nodi yn y ‘Gorchymyn Gwreiddiol’ ac yn Gorchymyn Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) 2022.

5. Diwygir y Gorchymyn Gwreiddiol drwy hyn gan gynnwys y canlynol:

6. Caiff Atodlen 2 yn y Gorchymyn Gwreiddiol ei dileu a'i disodli ag Atodlen 2B.

7. Caiff Atodlen 2A Gorchymyn Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd

Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) 2022 ei dileu a’i disodli ag Atodlen 2B.

8. Caiff unrhyw gyfeiriad at Atodlen 2 yn y Gorchymyn Gwreiddiol ei dileu a'i disodli ag Atodlen 2B.

9. Caiff unrhyw gyfeiriad at Atodlen 2A yng Gorchymyn Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) 2022. ei dileu a'i disodli ag Atodlen 2B.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )

**CYNGOR SIR Y FFLINT** )

yn y fan hon )

ar XX XXXXXX 202X )

yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**UWCH GYFREITHIWR**

# ATODLEN 2B

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth y cerbyd** | **Safle Lle y Gall Cerbyd Aros** | **Diwrnodau ac oriau lle gellir codi tâl yn y Lleoedd Parcio** | **Dyddiau ac oriau gweithredol** | **Uchafswm cyfnod y gall cerbydau aros** | **Graddfa Prisiau** | **Math o Drwydded** |
| Maude Street, Cei Connah, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 1 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos, Trwyddedau Parcio | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 15:00 | Pob Dydd Bob Awr | Trwy'r Dydd | 50c am hyd at 1.5 awr<br>70c am hyd at 2.5 awr<br>£1.70 am hyd at 7 awr<br><br>Trwydded breswylwyr £30 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £340 y flwyddyn<br>Trwydded staff £48 y flwyddyn | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbyd Trydan Llain barcio gwefru | Cerbyd Trydan Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Pob Dydd Bob Awr | 3 awr heb ddychwelyd o fewn 3 awr, dydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17:00 tan 08:00 dim cyfyngiad | Parcio am Ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Stryd Fawr Arhosiad Byr, Cei Connah, fel a ddangosir gan y llinell glas ar Gynllun 2 ynghlwm â’r Gorchymyn hwn | Talu ac Arddangos, | Pob Cerbyd (heb drelar wedi’i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 15:00 | Pob Dydd Bob Awr | 2.5 Awr a Dim Dychwelyd o Fewn 1 Awr | 50c am hyd at 1.5 awr<br>70c am hyd at 2.5 awr | |
| | Cerbyd Trydan Llain barcio gwefru | Cerbyd Trydan Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Pob Dydd Bob Awr | 3 awr heb ddychwelyd o fewn 3 awr, dydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17:00 tan 08:00 dim cyfyngiad | Parcio am Ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Stryd Fawr Arhosiad Hir, Cei Connah, fel a ddangosir gan y llinell goch ar Gynllun 2 ynghlwm â'r Gorchymyn hwn | Talu ac Arddangos, Trwyddedau Parcio | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 15:00 | Pob Dydd Bob Awr | Trwy'r Dydd | 50c am hyd at 1.5 awr<br>70c am hyd at 2.5 awr<br>£1.70 am hyd at 7 awr<br><br>Trwydded breswylwyr £30 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £48 y flwyddyn<br>Trwydded staff £48 y flwyddyn<br><br>Parcio am Ddim | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbyd Trydan Llain barcio gwefru | Cerbyd Trydan Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Pob Dydd Bob Awr | 3 awr heb ddychwelyd o fewn 3 awr, dydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17:00 tan 08:00 dim cyfyngiad | | |

DYDDIEDIG 15 MAI 2018

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD –CEI CONNAH) (DIDDYMU) 2018


Steve Jones,
Prif Swyddog
(Strydlun a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**(LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD –CEI CONNAH)**
**(DIDDYMU) 2018**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 32, 33 a 34, 35 a Rhan IV Atodlen 9 o'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Dechreuad a Dyfyniad

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mai 2018 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio oddi ar y Stryd – Cei Connah) (Diddymu) 2018

Dehongliad

2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae gan yr ymadroddion canlynol yr ystyron a neilltuwyd iddynt:

Ystyr "asiant" yw unigolyn a benodwyd gan y Cyngor i ymgymryd â'i ddyletswyddau ar ei ran;

Bydd gan "fws" yr un ystyr ag yn y Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2016;

Ystyr "Swyddog Gorfodi Sifil" yw person sydd wedi'i gyflogi yn unol ag Adran 76 Deddf 2004 i ymgymryd â'r swyddogaethau a nodir yn y fan honno;

Ystyr "Cyngor" yw Cyngor Sir y Fflint neu ei awdurdod olynol;

Ystyr "cerbyd person anabl" yw cerbyd sy'n arddangos yn gyfreithlon yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a roddwyd yn unol â'r darpariaethau o fod yn gerbyd sydd, yn syth cyn neu ar ôl unrhyw gyfnod aros, a roddwyd yn unol â Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 wedi bod yn cael ei ddefnyddio yn syth cyn neu ar ôl unrhyw gyfnod aros, neu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cludo unigolion anabl.

Mae ystyr "bathodyn person anabl" yr un fath ag y mae yn Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000;

Mae “gyrrwr” o ran cerbyd sy’n aros mewn lle parcio oddi ar y ffordd, yn golygu’r person sy’n gyrru’r cerbyd ar yr adeg y’i gadawyd yn y lle parcio dan sylw;

Ystyr “cerbyd trydan” yw cerbyd lle mae’r pŵer cymhelliant trydanol yn deillio o fatri storio mewnol y gellir ei gysylltu â phlwg â’r prif gyflenwad trydan at y diben o ail-wefru’r batri dan sylw a bydd yn cynnwys unrhyw gerbyd sydd wedi ei bweru fel hyn yn rhannol gan fatri o’r fath, gan gynnwys hybrid plygio i mewn ac ystod estynedig o gerbydau trydanol;

Ystyr “man gwefru cerbydau trydan” yw offer wedi ei leoli wrth ymyl llain barcio ailwefru cerbyd trydan sy’n cyflenwi ynni trydan ar gyfer ail-wefru batris cerbydau trydan drwy gysylltu â chebl trydanol;

Ystyr “llecyn parcio ailwefru cerbyd trydan” yw llecyn parcio sy’n cael ei ddarparu gan y Gorchymyn hwn ac yn destun darpariaethau’r Gorchymyn hwn i'w ddefnyddio gan gerbydau trydan yn unig wrth ailwefru;

Ystyr “ailwefru” mewn perthynas â cherbyd trydan yw cerbyd trydan sydd wedi ei gysylltu drwy gebl trydan â llain wefru cerbydau trydan sydd wedi ei leoli wrth ymyl llain ailwefru cerbyd trydan at y diben o ailwefru batri’r cerbyd trydan;

Mae “llwytho / dadlwytho” yn cyfeirio at sefyllfa lle mae cerbyd yn cael ei barcio yn llwyr o fewn llain wedi ei nodi at y diben hwnnw o fewn lle parcio neu gasglu nwyddau neu ddeunyddiau neu lwytho neu ddadlwytho’r cerbyd mewn eiddo cyfagos i'r lle parcio ac nad yw'r cerbyd yn parcio am fwy nag ugain munud neu unrhyw gyfnod hirach y bydd y swyddog gorfodi sifil yn ei awdurdodi;

Mae “beic modur” yn cyfeirio at feic modur unigol yn unig ac yn eithrio unrhyw feic modur sydd â cherbyd ochr neu drelar, neu sydd â mwy na dwy olwyn;

Mae “parcio” ac "wedi parcio" yn cyfeirio at stopio cerbyd ac aros yn segur am beth amser boed y gyrrwr yn y cerbyd ai peidio ac ystyrir fod cerbyd wedi ei barcio am unrhyw gyfnod yn yr un lle parcio neu lain barcio (yn ôl y digwydd) os yw unrhyw ran ohono o dan y cerbyd neu lwyth y cerbyd (os oes llwyth) boed y cerbyd wedi symud yn ystod y cyfnod hwnnw ai peidio;

Ystyr “llain barcio” yw man yn y lle parcio, sy’n cael ei darparu i adael cerbyd o ddosbarth a nodir ac a nodir gan farciau ar yr arwyneb neu a nodir gan arwyddion yn unol â darpariaethau’r Gorchymyn;

Ystyr “trwydded barcio” yw tocyn tymor, trwydded gontract, trwydded fusnes neu drwydded staff o fath a dyluniad a roddir gan y Cyngor ar delerau ac amodau y gallai eu pennu, sy’n rhoi hawl i ddefnyddio’r lle parcio;

mae “deilydd trwydded” yn golygu person sydd wedi cael trwydded barcio a roddwyd o dan ddarpariaethau’r gorchymyn hwn;

Ystyr “tocyn parcio” yw tocyn a roddir gan beiriant tocynnau parcio yn amodol ar y Gorchymyn hwn ac sy’n nodi fod y ffi barcio wedi ei thalu a’r amser y bydd y cyfnod parcio yn dod i ben;

Ystyr “ffi barcio” yw’r swm a nodir yng ngholofn 8 atodlen 2 y Gorchymyn hwn mewn perthynas â’r lle parcio a nodir yng Ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn;

Ystyr "cyfnod parcio" mewn perthynas â'r lle parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn yw'r cyfnod o amser a nodir yng ngholofn 5 atodlen 2 y Gorchymyn hwn sy'n cyd-fynd â swm y ffi barcio a amlinellir yng ngholofn 8, atodlen 2 y Gorchymyn hwn;

Ystyr "peiriant tocynnau parcio" yw'r cyfarpar a ddyluniwyd i arddangos yr amser ar y tu allan, derbyn taliadau gan yrwyr a rhoi tocynnau parcio yn nodi fod ffi barcio wedi ei thalu a'r dyddiad a'r cyfnod parcio a dalwyd mewn perthynas ag o;

Ystyr "lle parcio" yw darn o dir a nodir yn ôl enw yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn ac ar y cynlluniau sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwn;

Ystyr "tâl cosb" yw'r tâl a osodwyd gan y Cyngor dan Adran 77 ac Atodlen 9 Deddf 2004 y dylid ei dalu i'r Cyngor yn dilyn cyhoeddi hysbysiad tâl cosb;

Ystyr "hysbysiad tâl cosb" yw hysbysiad tâl cosb a gyhoeddwyd neu a gyflwynwyd gan swyddog gorfodi sifil yn unol â darpariaethau Rheoliadau Gorfodaeth Sifil Mewn Perthynas â Thorri Rheolau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013;

"Ceidwad cofrestredig" yw'r person sydd wedi ei gofrestru am y tro gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau fel y person sydd wedi'i gofnodi fel ceidwad y cerbyd ar y dyddiad yr oedd y cerbyd wedi ei barcio yn y lle parcio dan sylw. Nid yw'r ceidwad cofrestredig o reidrwydd yn berchennog cyfreithiol ar y cerbyd nac yn gyrru nac yn defnyddio'r cerbyd ar y pryd hwnnw;

Ystyr "cerbyd" yw cerbyd a yrrir yn fecanyddol wedi ei adeiladu neu ei addasu i gludo dim mwy na saith teithiwr heb gynnwys y gyrrwr, neu unrhyw gerbyd arall nad yw ei bwysau heb lwyth yn fwy na 3.5 tunnell ac nad yw'n tynnu trelar.

3. At ddibenion y Gorchymyn hwn gellir ystyried fod cerbyd yn arddangos:

(a) bathodyn person anabl yn y safle perthnasol os:

(i) yw'r bathodyn wedi ei arddangos ar ddangosfwrdd neu banel ffasgia'r cerbyd; neu

(ii) lle nad oes dangosfwrdd na ffasgia wedi ei osod ar y cerbyd, arddangosir y bathodyn mewn safle amlwg ar y cerbyd

fel bod modd darllen blaen y bathodyn yn glir o'r tu allan i'r cerbyd.

(b) tocyn parcio yn y safle perthnasol os:

(i) yw'r tocyn parcio wedi ei arddangos ar ddangosfwrdd neu banel ffasgia'r cerbyd; neu

(ii) lle nad oes dangosfwrdd na ffasgia wedi ei osod ar y cerbyd, arddangosir y tocyn mewn safle amlwg ar y cerbyd

fel bod modd darllen blaen y tocyn parcio yn glir o'r tu allan i'r cerbyd.

(c) trwydded barcio yn y safle perthnasol os:

(i) yw'r drwydded barcio wedi ei harddangos ar ddangosfwrdd neu banel ffasgia'r cerbyd; neu

(ii) lle nad oes dangosfwrdd na ffasgia wedi ei osod ar y cerbyd, arddangosir y tocyn mewn safle amlwg ar y cerbyd

fel bod modd darllen blaen y drwydded barcio yn glir o'r tu allan i'r cerbyd.

4. Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn gorchymyn yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw, ac i'r Atodlen, i'r Gorchymyn hwn.

5. Ystyrir fod unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad yn gyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, gweithredwyd, cydgrynhowyd, ail-ddeddfir gan neu sydd â grym yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

6. Oni bai fod y cyd-destun yn gorchymyn fel arall, bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac fel arall a bydd geiriau sy'n dynodi'r personau yn cynnwys y naill ryw neu' llall, cyrff corfforaethol, cymdeithasau heb eu hymgorffori a phartneriaethau.

7. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn.

Dynodiad Lleoedd Parcio

8. Gellir defnyddio'r Lleoedd parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn, yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, fel lle i barcio cerbydau o'r fath ddosbarthiadau ag yng ngholofn 3 atodlen 2 y Gorchymyn hwn yn y fath safleoedd ag yng ngholofn 4, ar y fath ddyddiau ag yng ngholofn 5, yn ystod y fath oriau ag yng ngholofn 6 a nodir mewn perthynas â'r Lle Parcio yng ngholofn 2.

Eithriadau rhag y Ffi Barcio

9. O fewn y lleoedd parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn lle mae ffioedd neu drwyddedau parcio wedi eu nodi yng ngholofn 8 a cholofn 9 atodlen 2 y Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw berson, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu ganiatâd cwnstabl yr heddlu mewn iwnifform neu swyddog gorfodi sifil, achosi na chaniatáu unrhyw gerbyd i aros yn y lleoedd parcio a nodir yng ngholofn 1 Atodlen 2 y Gorchymyn hwn oni bai fod y cerbyd hwnnw yn arddangos yn y safle perthnasol:

(a) tocyn parcio dilys wedi ei roi gan beiriant tocynnau parcio yn unol ag Erthygl 45 y Gorchymyn hwn; neu

(b) trwydded barcio ddilys a roddwyd gan y Cyngor i ddefnyddio'r lle parcio hwnnw yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn; neu

(c) fod y cerbyd yn gerbyd trydan wedi ei barcio mewn llain ailwefru cerbyd trydan ac yn ailwefru.

Cerbydau a all ddefnyddio'r Lleoedd Parcio

10. Ni fydd unrhyw berson yn achosi nac yn caniatáu cerbyd i gael ei barcio mewn llain barcio oni bai ei fod wedi ei nodi yng ngholofn 3 atodlen 2 y Gorchymyn hwn.

11. Lle mae arwydd yn agos at y fynedfa i'r lle parcio neu farc ar arwyneb y maes parcio sy'n nodi fod y lle parcio ond ar gael i gerbydau dan uchder, lled, hyd neu bwysau penodol, neu ond ar amseroedd penodol, ni chaiff unrhyw un yn achosi na chaniatáu unrhyw gerbyd i fynd i mewn i'r lle parcio sy'n fwy na'r uchder, lled, hyd neu bwysau hwnnw nac y tu allan i'r amseroedd hynny.

Safle'r cerbyd

12. Os yw terfynau'r lleiniau parcio wedi eu marcio yn y lle parcio yn y fath fodd y gall y Cyngor ei bennu gyda llinellau, stydiau neu nodau eraill, rhaid i yrrwr cerbyd sicrhau nad yw wedi ei barcio y tu hwnt i farciau'r llain barcio ac ni fydd yn ei ganiatáu i barhau i fod wedi ei barcio yn y lle parcio oni bai ei fod yn y safle hwnnw.

13. Os nad yw lleiniau parcio wedi eu marcio yn y lle parcio bydd gyrrwr cerbyd yn sicrhau ei fod wedi ei barcio mewn modd nad yw'n rhwystro cerbydau eraill rhag defnyddio'r lle parcio, llif rhydd traffig rhag cylchredeg o fewn y lle parcio, a mynedfeydd ac allanfeydd y lle parcio.

14. Ni chaiff unrhyw berson yn y lle parcio, barcio'r cerbyd yn y fath fodd neu'r fath le sy'n achosi rhwystr i unrhyw ddefnyddwyr eraill y Lle Parcio.

15. Bydd unrhyw gerbyd a gaiff ei adael yn y lle parcio yn sefyll yn y fath fodd fel bod pob rhan o'r cerbyd o fewn terfynau'r llain barcio, a ddarperir yn achos lle parcio lle mae hyd unrhyw gerbyd yn ei atal rhag sefyll yn llwyr o fewn terfynau llain barcio, bydd y cerbyd hwnnw yn sefyll yn y llain barcio fel bod cymaint o'r cerbyd a bo modd o fewn terfynau'r llain ac nad yw unrhyw gyfran o'r cerbyd sydd y tu hwnt i derfynau'r llain barcio yn achosi perygl neu rwystr i ddefnyddwyr eraill y lle parcio.

16. Lle mae arwydd neu farc ar arwyneb y lle parcio , neu y disgrifir fod unrhyw lain yn y lle parcio ar gael ar gyfer cerbyd neu ddosbarth penodol o gerbydau i'w parcio mewn lleoliad penodol, ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu cerbyd i gael ei barcio yn y lle parcio nac mewn unrhyw lain barcio yn y lle parcio, oni bai ei fod o'r categori penodol.

17. Lle mae arwydd neu farc arwyneb o fewn y lle parcio sy'n nodi fod llain barcio ar gael yn unig ar gyfer cerbydau sy'n arddangos trwydded barcio ddilys, ni chaiff gyrrwr y cerbyd ganiatáu'r cerbyd i aros yn y lain barcio oni bai ei fod yn arddangos trwydded barcio ddilys yn y safle perthnasol.

18. Lle mae arwydd neu farc arwyneb o fewn y lle parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn sy'n dynodi fod llain barcio ar gael yn unig ar gyfer ailwefru cerbyd trydan ni chaniateir gyrrwr cerbyd i ganiatáu'r cerbyd i aros yn y llain barcio ailwefru cerbydau trydan oni bai ei fod yn gerbyd trydan a bod y cerbyd trydan dan sylw yn ailwefru o fan gwefru cerbydau trydan pan ei fod yn meddiannu'r man gwefru cerbydau trydan.

Lleiniau parcio i bersonau anabl

19. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn llain barcio gyda marc arwyneb neu arwydd ar gyfer personau anabl oni bai fod cerbyd yn arddangos bathodyn person anabl dilys yn y safle perthnasol ac yn syth cyn neu yn syth ar ôl y weithred o barcio fod y cerbyd

wedi cael neu ar fin cael ei ddefnyddio gan y person(au) y cyhoeddwyd y bathodyn person anabl mewn perthynas â fo/nhw.

Lleiniau llwytho a dadlwytho

20. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu cerbyd i barcio mewn ardal a nodir fel llain barcio oni bai fod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio at y diben o lwytho neu ddadlwytho.

Lleiniau parcio beiciau modur

21. Ni fydd unrhyw berson yn achosi nac yn caniatáu cerbyd i barcio mewn llain barcio a nodwyd ar gyfer beiciau modur oni bai fod y cerbyd yn feic modur unigol.

Pŵer i Gau neu Atal y Lle Parcio

22. Ni fydd unrhyw beth yn y Gorchymyn hwn yn atal y Cyngor drwy hysbysiad, arwydd neu rwystr a arddangosir neu a godir yn y Lle Parcio:

(i) rhag cau'r lle parcio neu unrhyw ran ohono am unrhyw gyfnod; ac / neu

(ii) rhag neilltuo lle parcio neu unrhyw ran neu rannau ohono ar bob diwrnod neu ar ddyddiau penodol neu yn ystod rhannau penodol o ddyddiau at ddefnydd gan gerbydau neu sefydliadau penodol.

(iii) Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu unrhyw gerbyd i aros yn unrhyw ran o'r lle parcio sydd wedi ei atal yn unol â darpariaethau'r Erthygl hon oni bai am gyda chaniatâd person a awdurdodir gan y Cyngor.

23. Wrth gau neu atal y defnydd o'r lle parcio neu unrhyw ran ohono bydd y Cyngor yn gosod neu'n achosi i gael ei osod yn neu'n gyfagos i'r lle parcio neu'r rhan honno ohono, hysbysiad neu arwydd traffig yn nodi fod y lle parcio neu ran honno ohono wedi ei chau neu fod y defnydd wedi ei atal ac na chaniateir parcio gan gerbydau.

24. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu cerbyd i gael ei barcio yn y lle parcio nac unrhyw ran ohono yn ystod y fath gyfnodau pan fod y lle parcio neu'r rhan honno ohono ar gau neu fod y defnydd wedi ei atal neu yn ystod y fath gyfnod lle mae hysbysiad neu arwydd draffig yn neu yn gyfagos iddo sy'n nodi ei fod wedi ei gau neu ei atal gan neu ar ran y Cyngor, ac eithrio gyda chaniatâd person a awdurdodwyd gan y Cyngor.

Gyrru o fewn y Lle Parcio

25. Lle mae arwyddion wedi eu codi neu farciau arwyneb wedi eu gosod yn y lle parcio at y diben o nodi'r fynedfa neu allanfa'r lle parcio, neu'n nodi y gall cerbyd sy'n defnyddio'r lle parcio fynd yn ei flaen yn y cyfeiriad a ddynodir o fewn y lle parcio ni chaiff unrhyw berson yrru nac achosi na chaniatáu unrhyw gerbyd i gael ei yrru fel ei fod yn mynd i mewn i'r lle parcio mewn modd ac eithrio drwy fynedfa neu'n gadael y lle parcio ac eithrio drwy allanfa, a nodir fel hynny, nac yn gyrru mewn cyfeiriad ac eithrio'r hyn a ddynodir.

Cyfyngiadau ar y defnydd o Leoedd Parcio

26. Pan fo cerbyd wedi gadael y lle parcio ar ôl aros ynddo, ni chaiff y gyrrwr oddi mewn iddo achosi na chaniatáu i'r cerbyd aros unwaith eto o fewn y Lle Parcio o fewn un awr ar ôl iddo adael.

27. Ni chaiff unrhyw gerbyd trydan aros mewn llain barcio ailwefru cerbyd trydan o fewn lle parcio a ddynodir yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn am gyfnod hirach na 4 awr ac ni chaiff cerbydau trydan o'r fath eu gadael mewn llain barcio ailwefru cerbyd trydan yn y lle parcio hwnnw nes bod 4 awr wedi mynd heibio ers yr amser yr aethpwyd â'r car trydan dan sylw i ffwrdd o'r lle parcio hwnnw.

Gwerthu Nwyddau

28. Ni chaiff unrhyw un yn y lle parcio heb ganiatâd ysgrifenedig a ddatganwyd gan y Cyngor, ddefnyddio cerbyd mewn cysylltiad â gwerthu unrhyw eitem, gan gynnwys y cerbyd ei hun, i unrhyw berson neu yn agos at y lle parcio neu mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig sgiliau neu wasanaethau i'w llogi yn unrhyw rinwedd arall.

Parcio gyda'r injan yn rhedeg

29. Bydd gyrrwr cerbyd sy'n defnyddio'r lle parcio yn stopio'r injan cyn gynted ag y bo'r cerbyd wedi ei barcio yn y lain barcio, ac ni fydd yn tanio'r injan oni bai ei fod am newid safle'r cerbyd neu adael y lle parcio.

Dibenion domestig

30. Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio rhan o'r lle parcio neu unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio yn y lle parcio ar gyfer cysgu neu wersylla neu goginio.

31. Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio unrhyw ran o'r lle parcio at y diben o wasanaethu, golchi neu atgyweirio unrhyw gerbyd neu ran ohono ac eithrio unrhyw waith atgyweirio a allai fod yn hanfodol er mwyn caniatáu'r cerbyd i ymadael â'r lle parcio.

Ymddygiad

32. Ni chaiff gyrrwr cerbyd sy'n defnyddio'r lle parcio seinio unrhyw gorn nac unrhyw offeryn arall tebyg ac eithrio er mwyn osgoi perygl pan eu bod ar fin newid safle'r cerbyd, neu i adael y lle parcio.

33. Ni chaiff unrhyw berson yn y lle parcio weiddi na gwneud sŵn uchel mewn unrhyw ffordd arall gan achosi aflonyddwch neu annifyrrwch i ddefnyddwyr y lle parcio neu eiddo trigolion yn y gymdogaeth.

34. Ni chaiff unrhyw berson yn y lle parcio ddefnyddio unrhyw iaith, arwydd neu ymddygiad bygythiol, difrïol na sarhaus gyda'r bwriad o beri ofn i unrhyw berson neu a fyddai'n achosi tor heddwch neu lle byddai tor heddwch yn debygol o gael ei achosi.

Gweithgareddau eraill

35. Ni chaiff unrhyw berson yn y lle parcio godi nac achosi na chaniatáu i babell, bwth, stondin neu adeiledd arall gael ei godi heb ganiatâd ysgrifenedig gan y Cyngor, na chynnau tân neu achosi i dân gael ei gynnau.

Adleoli, Symud a Gwaredu Cerbydau

Argyfyngau

36. Gall person a awdurdodwyd gan y Cyngor neu swyddog heddlu mewn iwnifform, gan ddefnyddio unrhyw fesurau sy'n briodol, symud neu achosi i unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio yn y lle parcio os oes argyfwng i unrhyw le y mae o/hi yn ei ystyried yn briodol.

Torri rheolau mewn Lle Parcio a Ataliwyd

37. Gall person a awdurdodir gan y Cyngor, gan ddefnyddio'r fath fesurau sy'n briodol, symud neu achosi i gael ei symud i unrhyw le y mae o/ hi yn ei ystyried yn briodol, unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio yn y lle parcio sydd wedi ei gau neu ei atal yn llwyr neu'n rhannol gan y Cyngor ac bydd ceidwad cofrestredig y cerbyd yn atebol am gostau symud a chadw'r cerbyd yn ddiogel.

Addasu Safle Cerbyd mewn Lleoedd Parcio

38. Lle bo unrhyw gerbyd yn sefyll yn y lle parcio yn groes i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn gall unrhyw berson a awdurdodir gan y Cyngor addasu neu achosi i safle'r cerbyd gael ei addasu er mewn i'w safle gydymffurfio â'r darpariaethau hynny a gall adennill unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r addasiad hwn gan geidwad cofrestredig y cerbyd.

Symud Cerbydau o Leoedd Parcio

39. Lle mae unrhyw unigolyn a awdurdodir gan y Cyngor yn credu fod unrhyw un o'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn hwn wedi cael eu torri neu na chydymffurfiwyd â nhw mewn perthynas â cherbyd a adawyd yn y lle parcio, gall symud y cerbyd neu achosi iddo gael ei symud o'r lle parcio. Bydd y Cyngor yn adennill unrhyw gostau y bydd y Cyngor yn eu hwynebu wrth symud unrhyw gerbyd o'r lle parcio gan geidwad cofrestredig y cerbyd.

40. Gall unrhyw berson sy'n symud cerbyd neu'n newid ei safle yn rhinwedd Erthyglau 37, 38 a 39 y Gorchymyn hwn wneud hynny trwy lusgo neu yrru'r cerbyd neu mewn modd arall y mae ef/hi yn ei ystyried yn angenrheidiol a gall gymryd camau mewn perthynas â'r cerbyd y mae ef/hi yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn gallu ei symud neu newid ei safle, yn ôl y digwydd.

Cadw'n Ddiogel

41. Bydd unrhyw berson sy'n symud cerbyd o'r lle parcio dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gwneud y fath drefniadau ag sydd angen yn rhesymol i ddarparu ar gyfer cadw'r cerbyd yn ddiogel.

Gwaredu cerbydau a adawyd mewn lle parcio

42. Gallai'r Cyngor mewn perthynas â cherbyd sydd wedi ei symud o le parcio yn unol ag Erthyglau 37 a 39 y Gorchymyn hwn, os yw'n ymddangos iddynt ei fod wedi ei adael, werthu neu waredu mewn ffordd arall, yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Swm y Ffi Barcio mewn Lleoedd Parcio

43. Bydd y ffi barcio ar gyfer cerbyd sy'n cael ei adael yn y lle parcio yn ystod yr oriau y gellir codi tâl yn unol â'r ffioedd parcio a'r cyfnod parcio a nodir yng ngholofn 8 atodlen 2 y Gorchymyn hwn.

Talu Ffi Barcio

44. Ac eithrio fel y darperir yn Erthygl 9 y Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw berson adael unrhyw gerbyd yn y lle parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn heb dalu'r ffi barcio mewn perthynas â'r cyfnod parcio y gadawyd y cerbyd a heb fod wedi arddangos tocyn parcio a roddwyd gan beiriant tocynnau parcio yn unol ag Erthygl 45 y Gorchymyn hwn.

AR YR AMOD at ddibenion yr Erthygl hon fod cerbyd pan gafodd ei osod yn gyntaf mewn lle parcio wedi ei eithrio rhag talu unrhyw ffi yn rhinwedd darpariaethau erthygl 9 y Gorchymyn hwn ac yn parhau i aros yn y lle parcio fel arall yn unol â'r darpariaethau hynny, ystyrir fod y ffi barcio yn ddyledus ac yn daladwy ar yr amser pan fod y cerbyd wedi peidio ag aros yn rhinwedd y darpariaethau hynny a bydd holl ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yna'n berthnasol yn unol â hynny

Arddangos Tocyn Parcio a roddwyd gan Beiriant Tocynnau Parcio

45. (1) Yn ddarostyngedig i erthygl 9 y Gorchymyn hwn bydd y ffi barcio yn daladwy pan y gadewir y cerbyd yn y lle parcio a nodwyd yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn drwy: -

(i) osod mewn peiriant tocynnau parcio unrhyw gyfuniad o ddarnau arian neu arian papur o'r gwerth a nodir ar y peiriant tocynnau parcio sydd gyda'i gilydd yn talu swm y ffi barcio ar gyfer y cyfnod y mae taliad yn cael ei wneud ar ei gyfer a lle mae angen mwy nac un darn arian i dalu'r ffi honno bydd rhaid gosod y darnau arian yn y peiriant tocynnau parcio un yn syth ar ôl y llall; neu

(ii) drwy osod cerdyn debyd neu gredyd a gymeradwywyd mewn peiriant tocynnau parcio a gwneud hyd at swm y ffi barcio ar gyfer y cyfnod parcio y mae taliad yn cael ei wneud ar ei gyfer yn unol â'r cyfarwyddiadau a amlinellir naill ai ar y sgrin neu ar y peiriant tocynnau parcio.

(2) Lle bo'r ffi barcio ar gyfer cerbyd a adawyd yn y lle parcio a nodwyd yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn wedi ei dalu yn unol â darpariaethau Erthygl 43, bydd gyrrwr y cerbyd hwnnw yn arddangos y tocyn a roddwyd gan y peiriant tocynnau parcio ar ôl talu'r ffi barcio neu'n achosi iddo gael ei arddangos ar y tu mewn i'r cerbyd yn unol â darpariaethau paragraff (3) yr Erthygl hon.

(3) Bydd y tocyn parcio a gyfeiriwyd ato yn Erthygl 44 y Gorchymyn hwn yn cael ei arddangos ar y cerbyd y cafodd ei gyhoeddi mewn perthynas ag o bob amser pan fod y cerbyd wedi ei adael yn ystod yr oriau a ganiateir ar yr ochr honno i'r tocyn sy'n cynnwys y mynegiant fod ffi barcio wedi ei thalu ac yn rhwydd i'w weld o'r blaen neu ymyl palmant y cerbyd.

(4) Ni cheir cyfnewid tocynnau a brynir rhwng cerbydau ac/neu leoedd parcio.

Mynegiant o Dalu Ffioedd Parcio

46. (1) Mynegir fod ffi barcio ar gyfer cerbyd a adawyd yn y lle parcio a nodwyd yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn wedi ei thalu yn unol â darpariaethau Erthygl 44 y Gorchymyn hwn drwy i beiriant tocynnau parcio roi tocyn yn nodi fod ffi barcio wedi ei thalu a'r dyddiad a'r amser y bydd y cyfnod parcio y gwnaed y taliad ar ei gyfer yn dod i ben a drwy arddangos y tocyn yn y modd a nodwyd yn Erthygl 45 y Gorchymyn hwn.

(2) Lle mae tocyn parcio yn nodi'r dyddiad a'r amser y daw tocyn parcio i ben, ystyrir fod y cyfnod y talwyd y ffi barcio ar ei gyfer wedi dod i ben pan fydd yr amser a ddangosir ar gloc y peiriant tocynnau parcio a roddodd y tocyn parcio yn hwyrach na'r amser a ddangosir ar y tocyn.

(3) Lle mae tocyn parcio yn nodi dyddiad ac amser y taliad, ystyrir fod y cyfnod y talwyd y ffi barcio ar ei gyfer wedi dod i ben pan fydd yr amser a ddangosir ar gloc y peiriant tocynnau parcio a roddodd y tocyn parcio yn hwyrach nac amser y taliad gan gynnwys yr amser a dalwyd amdano.

Mynegiant o Dalu Ffioedd Parcio fel Tystiolaeth

47. (1) Os ar unrhyw bryd pan fydd cerbyd wedi ei adael yn y lle parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn yn ystod yr oriau y codir tâl amdanynt ni fydd unrhyw docyn gan beiriant tocynnau parcio yn cael ei arddangos ar y cerbyd yn unol â darpariaethau Erthygl 45(3) y Gorchymyn hwn, ystyrir oni bai y profir fel arall nad yw'r ffi barcio wedi ei thalu'n briodol.

(1) Os ar unrhyw bryd pan fydd cerbyd wedi ei adael yn y lle parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn yn ystod yr oriau y codir tâl amdanynt bydd y tocyn a roddir gan beiriant tocynnau parcio yn cael ei arddangos ar y cerbyd yn unol â darpariaethau Erthygl 45 y Gorchymyn hwn a bod y cloc ar y peiriant tocynnau parcio a roddodd y tocyn yn rhoi'r mynegiant a grybwyllwyd yn Erthygl 46 y Gorchymyn hwn, ystyrir oni bai y profir fel arall fod

y ffi barcio wedi ei thalu'n briodol mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw a bod y cyfnod parcio y gwnaed taliad ar ei gyfer gan y ffi barcio eisoes wedi dod i ben.

(3) Ystyrir fod unrhyw docyn a roddir gan beiriant parcio yn ymwneud â'r lle parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2 y Gorchymyn hwn wedi ei roi ar y dyddiad a ddangosir arno oni bai y profir i'r gwrthwyneb.

Torri Rheolau

48. Os yw cerbyd wedi ei barcio yn y lle parcio heb gydymffurfio a gofynion y Gorchymyn hwn, bydd rheolau wedi eu torri a bydd tâl cosb yn daladwy ac yna mae'n bosibl y gellir cyhoeddi hysbysiad tâl cosb.

Cyfyngiad ar Ddiddymu Hysbysiadau

49. Ni chaiff unrhyw hysbysiad tâl cosb a osodir ar gerbyd yn unol â'r Gorchymyn hwn ei dynnu i ffwrdd nac ymyrryd ag ef heblaw am gan neu dan awdurdod y perchennog, neu'r person sy'n gyfrifol am, y cerbyd neu'r Cyngor.

Mynegiannau fel Tystiolaeth

50. Bydd y manylion a roddir mewn unrhyw hysbysiad tâl cosb sydd ynghlwm â cherbyd yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn cael eu trin fel tystiolaeth mewn unrhyw ddarpariaethau yn ymwneud â methiant i dalu'r tâl cosb.

Atebolrwydd a Darpariaethau Eraill

Atebolrwydd

51. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i gerbydau eraill a adawir yn y lle parcio y mae'r gorchymyn hwn yn berthnasol iddo ac eithrio rhai sy'n deillio o esgeulustod y Cyngor.

Dilysrwydd

52. Os yw llys, yr Adran Gludiant, Gweinidogion Cymru, y Tribiwnlys Cosbau Traffig neu'r Ganolfan Gorfodi Traffig yn datgan fod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n amhosibl ei weithredu, ni fydd y fath ddatganiad yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

Cerbydau Personau Anabl

53. Bydd y cerbydau canlynol pan fyddant wedi eu parcio mewn llain barcio personau anabl yn y lle parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2, ac eithrio lle bo colofn 2 atodlen 2 yn nodi Trwyddedau'n Unig, wedi eu heithrio rhag unrhyw gyfyngiad ar amser a graddfa ffioedd a nodir yng ngholofn 8 atodlen 2 ond dim ond cyhyd â bod y cerbyd yn parcio mewn llain barcio o'r fath, yn gerbyd unigolyn ag anabledd sy'n arddangos yn fathodyn person anabl yn y safle priodol

Trwyddedau

54. Gall y Cyngor gyhoeddi neu drefnu i gyhoeddi trwyddedau rhad ac am ddim sy'n caniatáu i gerbydau aros mewn Mannau Parcio y cyfeirir atynt yng ngholofn 1, a graddfa ffioedd yng ngholofn 8 yn atodlen 2 yn y Gorchymyn hwn, ond yn ddibynnol ar amodau defnyddio a chymhwyster a nodir yn y darpariaethau yn erthygl 56.

55. Gall person, ar ôl gwneud cais i'r Cyngor, brynu trwydded, yn caniatáu cerbydau i aros mewn lleoedd parcio, am gyfnod ac am y tâl, y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, yn amodol ar y darpariaethau yn Erthygl 56.

56. Rhaid defnyddio trwydded ratach neu drwydded yn unol â'r darpariaethau canlynol:

(a) Rhaid arddangos y drwydded ratach neu'r drwydded y tu mewn i ffenestr flaen y cerbyd fel bod y manylion a ddangosir bob amser i'w gweld yn glir o'r tu allan i'r cerbyd;

(b) Ni fydd y drwydded ratach neu'r drwydded yn rhoi hawl i yrrwr y cerbyd i gadw Llain Barcio unigol ac eithrio Trwyddedau A, B a G y cyfeirir atynt yn Atodlen 2. Os cyfyngir ar ei defnydd i Fannau Parcio penodol, bydd ond yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiad o'r fath;

(c) Ni chaiff unrhyw un newid y wybodaeth a roddir ar y drwydded ratach neu'r drwydded, neu arddangos trwydded ratach neu drwydded yn fwriadol ar gerbyd sydd wedi cael ei newid, difwyno, anffurfio neu yr ychwanegwyd ati neu y mae'r ffigurau neu'r manylion arni wedi mynd yn annarllenadwy;

(d) Bydd y drwydded ratach neu'r drwydded ond yn ddilys ar gyfer y Man Parcio ac yn ystod y cyfnod y mae'n cael ei gyhoeddi ac ni fydd modd ei drosglwyddo i unrhyw Fan Parcio arall;

(e) Bydd cerbyd sy'n arddangos trwydded ratach neu drwydded sydd wedi dod i ben, yn amodol ar y cyfyngiadau arferol a'r Erthyglau y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn;

(f) Bydd dyraniad ac argaeledd y drwydded ratach neu'r drwydded yn ôl disgresiwn y Cyngor ac ar delerau y bydd y Cyngor yn eu dyfarnu o bryd i'w gilydd;

(g) Mewn achos lle bydd unrhyw Berchennog yn gofyn am drwydded ratach neu drwydded newydd ar ôl ei cholli neu ei dinistrio bydd modd gwneud cais i'r Cyngor a bydd unrhyw amnewid o'r fath yn cael ei weithredu a bernir i unrhyw drwydded ratach neu drwydded a gyhoeddwyd yn flaenorol i berchennog o'r fath gael ei diddymu neu ei hildio a'i bod yn ddieffaith;

(h) Bydd hawl gan y Cyngor i derfynu pob hawl a roddwyd pan gyhoeddwyd unrhyw drwydded ratach neu drwydded neu docyn neu ildiad a brynwyd ymlaen llaw os bydd

Perchennog y drwydded neu'r tocyn neu'r ildiad a brynwyd ymlaen llaw yn mynd yn groes i'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn hwn ac mewn unrhyw amgylchiadau o'r fath ni fydd gan y Perchennog yr hawl i unrhyw ad-daliad o gwbl heb leihau effaith unrhyw hawl arall i weithredu y gallai fod gan y Cyngor naill ai o dan y Gorchymyn hwn neu fel arall.

<u>Dirymiadau</u>

57. Y Gorchmynion y nodwyd yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn i gael eu dirymu cyn belled a'u bod yn ymwneud â Mannau Parcio a restrwyd yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
at hyn )
ar y 15 diwrnod hwn o Mai 2018 )
yng ngŵydd:- )

**CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

# ATODLEN 1

Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Queensferry, Shotton, Cei Connah) (Gorfodaeth Sifil a Chyfuno) (Diwygiad) 2015

**Atodlenni Dirymedig:**

• Maude Street, Cei Conna, fel y dangosir ymylon coch ar Gynllun 1 ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.

• Maes parcio Cydweithredol / Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Cei Connah, fel y dangosir yn ymyl coch ar Gynllun 2 ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.

# ATODLEN 2

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Dyddiau ac Oriau y Codir Tâl am Leoedd Parcio** | **Oriau y Gellir Codi Tâl Amdanynt** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Maude Street, Cei Connah, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 1 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos a Thrwyddedau | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>08:00 tan 17:00 | Bob Dydd<br>Bob awr | Trwy'r dydd | 30c am hyd at 1 awr<br>50c am hyd at 2 awr<br>£1.50 trwy'r dydd<br><br>Trwydded preswylwyr £25 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £300 y flwyddyn<br>Trwydded staff £12 y flwyddyn | Trwydded Preswylwyr<br>Trwydded Flynyddol<br>Trwydded Staff |
| Stryd Fawr, Cei Connah, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 2 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos a Thrwyddedau | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>08:00 tan 17:00 | Bob Dydd<br>Bob awr | Trwy'r dydd | 30c am hyd at 1 awr<br>50c am hyd at 2 awr<br>£1.50 trwy'r dydd<br><br>Trwydded preswylwyr £25 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £300 y flwyddyn<br>Trwydded staff £12 y flwyddyn | Trwydded Preswylwyr<br>Trwydded Flynyddol<br>Trwydded Staff |




| | | |
|---|---|---|
| DRAWN BY: NH | PRELIMINARY / APPROVAL / CONSTRUCTION | **Maude Street, Cei Connah** |
| CHECKED BY: CT | AMENDMENTS: / DATE | **Maes Parcio Cynllun 1** |
| SCALE: 1:500 @ A4 | | |
| NAT. GRID REF: SJ2069 | | DRAWING NUMBER: ST/PS/0001 109 P1 |

Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council


Steve Jones

Chief Officer (Streetscene and Transportation) — County Hall, Mold, CH7 6NF

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) — Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NF

STREETSCENE

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.




Steve Jones

Chief Officer (Streetscene and Transportation) — County Hall, Mold, CH7 6NF
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryde Thalreidiaeth) — Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NF

STREETSCENE

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA [illegible], FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

| | |
|---|---|
| DRAWN BY: | NH |
| CHECKED BY: | CT |
| SCALE: | 1: 1250 @ A4 |
| NAT. GRID REF: | SJ3068 / SJ3069 |

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|

# Stryd Fawr, Cei Connah

## Maes Parcio Cynllun 2

DRAWING NUMBER: ST/PS/0001 | 109 | P1

DYDDIEDIG 22 MAWRTH 2022

---

# GORCHYMYN
# (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD – CEI CONNAH)
# (DIWYGIAD RHIF 1) CYNGOR
# SIR Y FFLINT 2022

---


**Katie Wilby,**
**Prif Swyddog**
**(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**
**Neuadd y Sir,**
**Yr Wyddgrug,**
**Sir y Fflint,**
**CH7 6NB**

**GORCHYMYN**

**(LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD – CEI CONNAH)**

**(DIWYGIAD RHIF 1) CYNGOR**

**SIR Y FFLINT 2022**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 32, 33, 34, 35, 124 (1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Dechreuad a Dyfyniad**

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn atodol i Orchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Cei Connah) (Dirymu) 2018 ("y Gorchymyn Gwreiddiol") sydd, yn ddarostyngedig fel y crybwyllir yma wedi hyn, yn parhau mewn grym ac effaith lawn.

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2022 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn (Lleoedd Parcio oddi ar y Stryd – Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) Cyngor Sir y Fflint 2022.

4. Mae'r diffiniadau wedi eu hamlinellu yn y Gorchymyn Gwreiddiol.

**Dehongli**

5. Diwygir y Gorchymyn Gwreiddiol drwy hyn gan gynnwys y diffiniadau a ganlyn:

Mae "trwydded barcio rithiol" yn golygu cofnod electronig o docyn parcio, trwydded barcio neu oddefeb a gyhoeddwyd ac a gadarnhawyd gan y Cyngor i eithrio cerbyd rhag cyfyngiad neu i wneud taliad heblaw am y safle a gwmpesir yn narpariaethau'r Gorchymyn hwn, o dan y telerau perthnasol ar adeg cyhoeddi. Gellir cael trwydded barcio rithiol trwy unrhyw un o'r dulliau a ddarperir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor ac i fod yn ddilys rhaid ei chofrestru ar gyfrif mewn cronfa ddata electronig a gymeradwyir gan y Cyngor gydag arwydd bod y drwydded wedi'i rhoi a'i dilysu yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor

ystyr "beic modur trydan" yw beic modur sy'n cael ei bweru gan drydan yn unig ac sy'n cael ei wefru gan ffynhonnell allanol.

ystyr "bae gwefru beiciau modur trydan" yw man parcio sydd wedi'i farcio a'i lofnodi'n gyfan gwbl at ddefnydd beic modur trydan tra bod y beic modur hwnnw'n cael ei wefru drwy gyfrwng pwynt gwefru beiciau modur trydan.

ystyr "pwynt gwefru beiciau modur trydan" yw uned bwrpasol a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer gwefru beiciau modur trydan.

Ystyr Trwydded Trigolion yw trwydded i drigolion sy'n byw mewn eiddo domestig yn agos at faes parcio cyhoeddus sydd heb ddigon o le parcio ar neu oddi ar y stryd. Mae'n rhaid i bawb sy'n gwneud cais am drwydded ddarparu prawf eu bod yn byw mewn cyfeiriad sy'n agos at y maes parcio ac mae'n rhaid i'r cerbyd fod wedi'i gofrestru i'r cyfeiriad hwnnw.

Ystyr Trwydded Staff yw trwydded i staff a Chynghorwyr sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol sy'n gweithio mewn swyddfa/swyddfeydd Cyngor dynodedig. Bydd trwydded yn cael ei rhoi i ddefnyddio maes parcio cyhoeddus sy'n agos at y gweithle.

Mae Trwyddedau Blynyddol yn golygu trwydded barcio a gyhoeddir at ddibenion parcio mewn maes parcio cyhoeddus sawl tro dros gyfnod o flwyddyn. Mae'r drwydded flynyddol yn cynnig dull cyfleus o dalu i unigolion sy'n defnyddio'r mannau parcio'n rheolaidd.

Bydd y canlynol yn cael ei ddileu o'r Gorchymyn Gwreiddiol:-

Ystyr "trwydded barcio" yw tocyn tymor, trwydded gontract, trwydded fusnes neu drwydded staff o fath a dyluniad a roddir gan y Cyngor ar delerau ac amodau y gallai eu pennu, sy'n rhoi hawl i ddefnyddio'r lle parcio;

A bydd hyn yn cael ei roi yn ei le:-

Ystyr "trwydded barcio" yw unrhyw fath o drwydded neu drwydded rithiol o fath a dyluniad a roddir gan y Cyngor er mwyn awdurdodi parcio yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn.

6. Caiff Atodlen 2 yn y Gorchymyn Gwreiddiol ei dileu a'i disodli ag Atodlen 2A.

7. Caiff unrhyw gyfeiriad at Atodlen 2 yn y Gorchymyn Gwreiddiol ei ddileu a'i ddisodli ag Atodlen 2A.

**Eithriadau rhag y Ffi Barcio**

8. Diwygir Erthygl 9 yn y Gorchymyn Gwreiddiol fel a ganlyn:-

9. O fewn y lleoedd parcio a nodir yng ngholofn 1 yn atodlen 2A y Gorchymyn hwn lle mae ffioedd neu drwyddedau parcio wedi eu nodi yng ngholofn a colofn 8 a colofn 9 atodlen 2A y Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw berson, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu ganiatâd cwnstabl yr heddlu mewn iwnifform neu swyddog gorfodi sifil, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros yn y lleoedd parcio a nodir yng ngholofn 1 atodlen 2A y Gorchymyn hwn oni bai fod y cerbyd hwnnw yn arddangos yn y safle perthnasol:

(d) Neu â cherdyn parcio rhithiol dilys, ble nad oes angen arddangos tocyn.

**Cyfyngiadau ar y defnydd o Leoedd Parcio**

10. Diwygir Erthygl 27 yn y Gorchymyn Gwreiddiol fel a ganlyn:-

27. Ni chaiff unrhyw gerbyd trydan aros mewn llain barcio ailwefru cerbyd trydan o fewn lle parcio a ddynodir yng ngholofn 1 yn Atodlen 2A y Gorchymyn hwn am gyfnod hirach na 3 awr ac ni chaiff cerbydau trydan o'r fath gael eu gadael mewn llain barcio ailwefru cerbyd trydan yn y lle parcio hwnnw eto nes bod 3 awr wedi mynd heibio ers yr amser yr aethpwyd â'r car trydan dan sylw i ffwrdd o'r lle parcio hwnnw o fewn yr oriau a nodir yng Ngholofn 7. Ni chaiff unrhyw gerbyd trydan aros mewn llain barcio ailwefru oni bai bod y cerbyd wedi'i blwgio i mewn a'i fod yn gwefru.Nid oes cyfyngiad ar hyd arhosiad ar gyfer gwefru dros nos rhwng 5pm - 8am.

**Mynegiant o Dalu Ffioedd Parcio fel Tystiolaeth**

11. Diwygir Erthygl 47 yn y Gorchymyn Gwreiddiol trwy ychwanegu'r canlynol:

(4) Os, ar unrhyw adeg tra bod cerbyd wedi'i barcio mewn man parcio, na fydd tocyn yn cael ei arddangos ar y cerbyd hwnnw yn y man perthnasol ac yn unol â

darpariaethau'r gorchymyn hwn, bernir nad yw'r tâl wedi'i dalu oni mae gan y cerbyd drwydded barcio rithwir ddilys.

**Trwydded Barcio Rithwir Ddilys**

47A. Ble mae trefniadau i dalu'r tâl dyddiol wedi eu gwneud drwy gael cerdyn parcio rhithiol, ac na chynhyrchir tocyn talu ac arddangos drwy ddilyn y broses, bydd gyrrwr cerbyd wedi'i eithrio rhag y gofyniad i arddangos tocyn o'r fath.

19848

**RHODDWYD SÊL GYFFREDIN**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

ar )

y 22 diwrnod o Mawrth 2022 )

yng ngŵydd: )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

~~**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**~~

# ATODLEN 2A

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth y Cerbyd** | **Safle lle y gall cerbyd aros** | **Diwrnodau ac oriau lle gellir codi tâl yn y Lleoedd Parcio** | **Diwrnodau ac oriau gweithredol** | **Uchafswm y Cyfnod gall y Cerbydau aros** | **Graddfa ffioedd** | **Math o drwydded** |
| Maude Street, Cei Connah, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 1 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos a Thrwyddedau | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 17:00 | Bob Dydd<br>Bob awr | Trwy'r dydd | 30c am hyd at 1 awr<br>50c am hyd at 2 awr<br>£1.50 am hyd at 9 awr<br><br>Trwydded preswylwyr £25 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £300 y flwyddyn<br>Trwydded staff £48 y flwyddyn | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Stryd Fawr, Cei Connah, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 2 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos a Thrwyddedau | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 17:00 | Bob Dydd Bob awr | Trwy'r dydd | 30c am hyd at 1 awr<br>50c am hyd at 2 awr<br>£1.50 am hyd at 9 awr<br><br>Trwydded preswylwyr £25 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £48 y flwyddyn<br>Trwydded staff £48 y flwyddyn | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob Dydd Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00 17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD - CEI CONNAH)**

**(DIWYGIAD RHIF 2) GORCHYMYN 202X**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Mae Cyngor Sir y Fflint, yn unol â darpariaethau Deddf Traffig Ffyrdd 1984, a deddfiadau galluogi eraill, yn gwneud darpariaeth ar gyfer llefydd parcio oddi ar y stryd.


Mae’r Cyngor nawr yn rhoi cynnig gerbron i addasu Gorchymyn presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diddymu) 2018 a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) 2022 2022 yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu lleihad ym maint yr ardal oherwydd y barcio Stryd Fawr a bydd darpariaeth arhosiad byr a hir yn cael ei gyflwyno ar y maes parcio dan sylw.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maen nhw wedi’u cynnwys yn y gorchymyn drafft arfaethedig.

Dyddiad: Dydd Gwener 14 Chwefror 2025



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NR




CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

STREETSCENE

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NW

CHECKED BY: VP

SCALE: 1: 1250 @ A4

NAT. GRID REF: SJ3068 / SJ3069

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |

# Stryd Fawr, Cei Connah
# High Street Connah Quay
## Maes Parcio Cynllun 2
## Plan 2 Car Park

DRAWING NUMBER

| ST/PS/0001 | 109 | P1 |
|---|---|---|